

Gweithio gyda'n gilydd i gadw pobl yn ddiogel

Cod Ymarfer Diogelu

Crynodeb i unrhyw un sy'n cynnig gweithgareddau ar gyfer plant ac oedolion yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Yng Nghymru, mae llawer o weithgareddau i bobl eu mwynhau.

Mae Llywodraeth Cymru am i bob gweithgaredd fod yn ddiogel, ni waeth pwy sy'n eu rhedeg. Rydym am i bawb ddeall beth mae **diogelu** yn ei olygu a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud.

Mae diogelu yn golygu:

- cadw pobl yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio
- gwybod beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod rhywun mewn perygl.

Mae gwybod beth i'w wneud, pryd i'w wneud a sut i'w wneud, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl.

Rydym ni wedi datblygu'r canllaw hwn i sicrhau:

- bod unrhyw un sy'n rhedeg gweithgaredd yn gwybod sut i gadw pobl yn ddiogel
- bod pobl yn gwybod sut i gadw eu hunain yn ddiogel ac eraill yn ddiogel.

Mae diogelu yn fater i bawb.



Gweithgareddau i wneud y canlynol:



Dod yn heini — clybiau chwaraeon, clybiau nofio, grwpiau dringo, clybiau pêl-droed.



Cysylltu — grwpiau celf, corau, grwpiau darllen, grwpiau crefft, grwpiau ffydd.



Dysgu — gwersi cerddoriaeth, grwpiau Cymraeg, cyrsiau crochenwaith, dosbarthiadau dawns a drama.



Cael cymorth — grwpiau gofalwyr, grwpiau oedrannus, grwpiau mamau a phlant bach, clybiau ieuenctid.

Mae gweithgareddau fel hyn yn bwysig. Maen nhw'n helpu lles corfforol a meddyliol pobl.



Camau i ddiogelu



Mae'r canllaw yn ymdrin â gweithgareddau:

- ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion
- mae pobl yn talu amdanynt a rhai sy'n rhad ac am ddim
- ym mhob lleoliad.

Polisi Diogelu

Dylai fod gan unrhyw un sy'n cynnal gweithgareddau bolisi diogelu.

Dylai Polisi Diogelu nodi'r hyn mae'n rhaid i bawb ei wneud:

- os ydyn nhw'n credu bod rhywun mewn perygl neu'n cael ei niweidio wrth gymryd rhan yn y gweithgaredd
- os ydyn nhw'n credu bod rhywun mewn perygl neu'n cael ei niweidio gartref neu yn y gymuned
- os ydyn nhw wedi gweld neu glywed rhywbeth sy'n eu gwneud yn bryderus.

Dylai:

- esbonio sut i roi gwybod am faterion
- cynnwys manylion y Person Diogelu Dynodedig (DSP)
- cynnwys manylion cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol
- ei gwneud yn glir, os yw rhywun mewn perygl uniongyrchol, eich bod yn galw'r Heddlu
- bod yn gyfredol.



Person Diogelu Dynodedig (DSP) —

Dylai fod gan bob sefydliad berson penodol sy'n gyfrifol am ddiogelu a mynd ar drywydd pryderon.



Hyfforddiant Diogelu

Dylai pawb gael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf i'w helpu:

- i sylwi ar arwyddion camdriniaeth, niwed neu esgeulustod
- i ddeall sut i weithredu pan fydd problem.

Mae angen i'r Person Diogelu Dynodedig fod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf a gwybod ble i gael cyngor os oes ei angen arno.

Mae Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cynnig gwybodaeth am hyfforddiant yn eich ardal, sy'n cynnwys hyfforddiant ar-lein ac e-ddysgu.



Rhannu gwybodaeth

Gall rhannu'r wybodaeth gywir ar yr adeg iawn wneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran cadw pobl yn ddiogel.



Mae deddfau ar gyfer pryd a sut i rannu gwybodaeth ond mae cadw pobl yn ddiogel rhag camdriniaeth bob amser yn cael blaenoriaeth.

Cael eich gwirio: Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant, neu oedolion sydd mewn perygl, gael eu gwirio gan yr heddlu. Mae'n groes i'r gyfraith i gyflogi unrhyw un i weithio gyda phlant, neu oedolion sydd mewn perygl sy'n cael eu rhoi ar y rhestr gwahardd plant neu'r rhestr gwahardd oedolion.

Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel

Os yw gweithgaredd yn cynnwys plant o dan 16 mlwydd oed yn perfformio, rhaid iddo gael trwydded gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys perfformio ar lwyfan, teledu, ffilm, chwaraeon â thâl a modelu.

Dyletswydd gofal: Iechyd a diogelwch

Ni waeth ble mae gweithgaredd yn digwydd, rhaid iddo fod yn ddiogel ac yn addas i'r diben. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yn nodi sut i reoli argyfwng, pwy sy'n gwneud beth, pryd a sut. Os oes pump neu fwy o weithwyr, rhaid i'r polisi iechyd a diogelwch fod yn ysgrifenedig ac ar gael iddyn nhw ei ddefnyddio.

Swydd o Ymddiriedaeth

Mae 'swydd o ymddiriedaeth' yn derm cyfreithiol. Mae unrhyw oedolyn sy'n gweithio'n rheolaidd gyda phlant mewn 'swydd o ymddiriedaeth' — athrawon, gweithwyr gofal, gweithwyr cyfiawnder ieuencid, meddygon, gweithwyr cymdeithasol.

Mae'n bwysig nad ydyn nhw'n torri'r ymddiriedaeth honno. Mae'n groes i'r gyfraith i unrhyw un sydd mewn swydd o ymddiriedaeth gael gweithgarwch rhywiol gyda rhywun yn eu gofal, hyd yn oed os ydyn nhw dros 16 mlwydd oed.

Pryderon am oedolion

Os oes pryderon am rywun sy'n gweithio gyda phlant, neu oedolion sydd mewn perygl, mae angen rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol amdano. Mae gan bob awdurdod lleol:

- ddyletswydd gyfreithiol i gadw pobl yn ddiogel
- dyletswydd i reoli a mynd ar drywydd pryderon.

Mae ganddyn nhw uwch reolwr (Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol) sy'n gyfrifol am ymdrin â hyn.



Cyngor a chefnogaeth

Mae llawer o leoedd i gael gwybodaeth a chyngor, gan gynnwys:

Eich [Bwrdd Diogelu Cymru](#)
Sganiwch y cod QR isod



RSCB Caerdydd a Bro Morgannwg

✉ cardiffandvalersb@cardiff.gov.uk

☎ 029 2233 0880 / 029 2233 0883

Ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.

Cwm Taf Morgannwg RSB

✉ ctmsafeguarding@rctcbc.gov.uk

☎ 01443 490 122

Rydym yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Gwent RSB

✉ Gwentsafeguarding@caerphilly.gov.uk

☎ 01443 86 4373 / 4546 / 4670

Ar gyfer Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

RSB Canolbarth a Gorllewin

✉ cysur@pembrokeshire.gov.uk (plant)

✉ CWMPAS@pembrokeshire.gov.uk (oedolion)

Ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

RSB Gogledd Cymru

✉ regionalsafeguarding@denbighshire.gov.uk

☎ 01824 712 903

Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

RSB Gorllewin Morgannwg

✉ wgsb@npt.gov.uk

☎ 01639 763 021

Ar gyfer Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

I gael gwiriadau, gwybodaeth a chyngor:

 [Yr offeryn Cymhwysedd](#)

 [Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - GOV.UK](#)


 [Canllawiau DBS](#)

Gwaith gwirfoddol

CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)

 [wcva.cymru/safeguarding](#)

Cymorth y trydydd sector

 [Cymorth y trydydd sector yng Nghymru](#)

Cysylltwch â'u Swyddog Llywodraethu a Diogelu:

 safeguarding@wcva.cymru

 0300 111 0124

Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS)

 catrin@cwvys.org.uk

Cadw plant yn ddiogel i chwarae

 [Chwarae Cymru](#)

Chwaraeon Cymru

Hwb Diogelu Chwaraeon Cymru.

 029 2033 4975.

Diogelu plant mewn chwaraeon

 [cpsu.org.uk](#)

Diogelu Oedolion mewn Chwaraeon

 [anncraft trust.org](#)

Perfformwyr Ifanc

 [Cadw perfformwyr ifanc yn ddiogel](#)

Elusennau

 [Canllawiau Elusennau](#)

Grwpiau fydd

Yr Eglwys yng Nghymru

 [Eglwys yng Nghymru](#)

Y Gwasanaeth Cyngori ar Ddiogelu Catholig (CSAS)

 [Diogelu Catholigion](#)

Diolch am ddarllen hwn.

Gallwch ddarllen mwy yma:

llyw.cymru/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cod-y-marfer-diogelu

